



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Polisi ar gyfer ymdrin â phryderon chwythu'r chwiban

Rhagfyr 2022

1. Diben y polisi hwn

- 1.1 Mae 'chwythu'r chwiban' yn cyfeirio at achosion pan fydd cyflogai, cyn-gyflogai neu aelod o sefydliad yn codi pryderon, naill ai yn y gweithle neu'n allanol, ynglŷn â pherygl, risg, camymarfer neu ddrygioni sy'n effeithio ar bobl eraill. Gall chwythwr chwiban fod yn gyflogai presennol neu'n gyn-gyflogai, yn weithiwr neu'n aelod o sefydliad, megis hyfforddai neu fyfyrwr.
- 1.2 Gall yr arfer o chwythu'r chwiban ddigwydd oddi mewn i sefydliad; neu, os yw'r unigolyn yn teimlo na all wneud hynny, gall roi gwybod i rywun arall. Gelwir yr unigolyn hwnnw yn 'unigolyn rhagnodedig'. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r unigolyn yn teimlo na all godi ei bryderon yn lleol, neu mae'n amharod i wneud hynny, naill ai oherwydd pryder ynglŷn â'i rôl ei hun neu gan ei fod wedi codi ei bryder o'r blaen heb i unrhyw gamau gael eu cymryd wedyn.
- 1.3 Yn y DU, caiff chwythwyr chwiban eu hamddiffyn gan ddeddfwriaeth¹ ac mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) yn un o'r cyrff y gellir rhoi gwybod iddo am bryderon chwythu'r chwiban.
- 1.4 Sylweddolwn y gall codi pryderon fod yn dasg anodd. Os ydych yn ystyried codi pryderon gyda'r GOsC, bydd y polisi hwn yn esbonio'r canlynol:
 - a. y mathau o bryderon y gallwn eu hystyried o dan y ddeddfwriaeth chwythu'r chwiban;
 - b. sut byddwn yn delio â phryderon y tynnwyd ein sylw atynt; a hefyd
 - c. pa gamau y byddwn yn eu cymryd a'r amserlen ar gyfer y camau hynny.

2. Y mathau o bryderon y gallwn eu hystyried o dan y ddeddfwriaeth chwythu'r chwiban

- 2.1 Mae yna wahaniaeth rhwng codi pryderon ynghylch pa mor gymwys yw osteopathiaid i ymarfer ar y naill law a chwythu'r chwiban ar y llaw arall. Er mwyn bod yn chwythwr chwiban yn llygad y gyfraith, rhaid i'ch pryder fod yn 'ddatgeliad cymwys'. Felly, bydd yn ofynnol i'r datgeliad fodloni pob un o'r meini prawf isod:
 - Rhaid ichi fod yn 'weithiwr', yn rhywun sy'n gweithio neu sydd wedi gweithio o dan contract. Mae hyn yn cynnwys cyflogeion, gweithwyr asiantaeth, hyfforddeion, gwirfoddolwyr a myfyrwyr.
 - Rhaid ichi gredu'n rhesymol eich bod yn gweithredu er budd y cyhoedd. Golyga hyn y bydd nifer o bobl ar eu hennill os cymerir

¹ Caiff chwythwyr chwiban yn y DU eu hamddiffyn o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, sy'n diwygio Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996. Mae'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd yn amddiffyn cyflogeion a gweithwyr.

camau, ac na fyddwch yn gweithredu er eich budd personol eich hun yn unig. Nid yw cyfraith chwythu'r chwiban yn berthnasol i gwynion personol (er enghraifft, bwlio ac aflonyddu), oni bai y ceir diwylliant bwlio neu wahaniaethu yn y gweithle – byddai hynny'n golygu bod y mater o dan sylw yn bryder er budd y cyhoedd.

- Rhaid ichi gredu'n rhesymol bod y pryder yn dangos rhyw ddrygioni sydd wedi digwydd, sydd yn digwydd neu sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol, yn un neu fwy o'r categorïau canlynol:
 - bod trosedd wedi'i chyflawni, yn cael ei chyflawni neu'n debygol o gael ei chyflawni. Gall hyn fod oddi mewn neu oddi allan i'r DU.
 - bod unigolyn wedi methu, yn methu neu'n debygol o fethu cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
 - bod camweinyddiad cyfiawnder wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd
 - bod iechyd neu ddiogelwch unrhyw unigolyn wedi cael ei roi mewn perygl, yn cael ei roi mewn perygl neu'n debygol o gael ei roi mewn perygl
 - bod yr amgylchedd wedi cael ei niweidio, yn cael ei niweidio neu'n debygol o gael ei niweidio
 - bod gwybodaeth yn dangos bod un neu fwy o'r meini prawf hyn wedi cael eu celu'n fwriadol, yn cael eu celu'n fwriadol neu'n debygol o gael eu celu'n fwriadol
- Rhaid ichi gredu'n rhesymol bod y mater yn berthnasol i'n cylch gwaith rheoleiddiol:
 - (a) cofrestriad neu gymhwyster i ymarfer ar gyfer osteopathiaid sydd wedi cofrestru gyda'r GOsC; a hefyd
 - (b) gweithgareddau nad ymdrinnir â nhw yn (a) ond sy'n ymwneud â swyddogaethau eraill y GOsC yn cynnwys cymeradwyo cyrsiau darparwyr addysg osteopathig, gosod a chynnal Safonau Ymarfer Osteopathig y GOsC ac adolygu a chymeradwyo ceisiadau i gofrestru fel osteopath.
- Rhaid ichi gredu'n rhesymol bod yr wybodaeth a ddatgelir gennych yn wir o ran sylwedd.

2.2 Nid yw 'credu'n rhesymol' yn golygu bod angen ichi brofi'r hyn a ddywedwch. Digon yw dangos bod gennych ryw sail resymol dros gredu bod drygioni wedi digwydd.

3. Sut i roi gwybod i'r GOsC am bryderon chwythu'r chwiban

3.1 Rydym yn annog unigolion i ystyried codi eu pryderon yn fewnol gyda'u sefydliadau cyn cysylltu â'r GOsC. Fodd bynnag, os ydych wedi codi eich pryderon oddi mewn i'ch sefydliad ac os nad ydych yn fodlon â'r ymateb, neu os ydych yn teimlo na allwch godi eich pryderon oddi mewn i'ch sefydliad, gallwch gysylltu â ni o dan y polisi hwn.

3.2 Bydd modd ichi godi pryder gyda'r GOsC, naill ai yn llafar neu'n ysgrifenedig, yn y ffyrdd canlynol:

Dros y ffôn: 020 7357 6655 estyniad 224

Yn ysgrifenedig: Director of Fitness to Practise
General Osteopathic Council
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London SE1 3LU

Trwy e-bost: whistleblowing@osteopathy.org.uk neu
regulation@osteopathy.org.uk

3.3 Os byddwch yn cysylltu â ni dros y ffôn, byddwn yn eich tywys trwy ein proses ac yn cofnodi gwybodaeth am eich pryderon (hynny yw, yr wybodaeth rydych yn fodlon ei chyflwyno). Ond fel arfer, byddwn yn gofyn ichi gadarnhau eich pryderon yn ysgrifenedig (trwy'r post neu trwy e-bost).

3.4 Mae'r GOsC yn rheoleiddio osteopathiaid unigol. Os yw eich pryderon yn ymwneud â safonau ansawdd a diogelwch y gofal iechyd a ddarperir gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, dylid codi'r pryderon hyn gyda rheoleiddiwr perthnasol y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

3.5 Ers mis Ebrill 2017, mae hi'n ofynnol i'r GOsC, ynghyd â saith o reoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol eraill², gyhoeddi adroddiad blynyddol yn sôn am ddatgeliadau chwythu'r chwiban y tynnodd gweithwyr ein sylw atynt.³

4. Cyfrinachedd a phryderon a godir yn ddiennw

4.1 Pa bryd bynnag y bo modd, byddai'n well gennym pe baech yn codi pryderon gyda ni mewn modd agored. Byddai hyn yn ein cynorthwyo i ymchwilio i'r mater yn y ffordd fwyaf effeithiol.

4.2 Ni fydd y GOsC yn datgelu pwy ydych chi heb eich caniatâd, oni bai y ceir rhesymau cyfreithiol sy'n mynnu bod yn rhaid inni wneud hynny – er enghraifft, pan fo'r wybodaeth a gyflwynwyd gennych yn ymwneud â

² Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol; y Cyngor Fferylol Cyffredinol; y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol; y Cyngor Deintyddol Cyffredinol; y Cyngor Meddygol Cyffredinol; y Cyngor Optegol Cyffredinol; y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal; y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

³ Gellir dod o hyd i'r adroddiad ar ein gwefan: osteopathy.org.uk/about-us/our-work/handling-whistleblowing-concerns-policy

phlentyn neu oedolyn agored i niwed sydd mewn perygl, neu pan fo trosedd wedi'i chyflawni o bosibl. Hefyd, efallai y bydd yn rhaid inni ddatgelu pwy ydych chi pe bai'r Llys yn gorchymyn bod yn rhaid inni wneud hynny.

- 4.3 Fodd bynnag, er mwyn inni allu gweithredu ar sail eich pryderon, mae'n bosibl y byddwn angen eich caniatâd i ddatgelu gwybodaeth i osteopathiaid neu ddarparwyr addysg sy'n destun ymchwiliad. Os na roddwch eich caniatâd, mae'n bosibl na fydd modd inni ymchwilio i'ch pryderon yn briodol, os o gwbl.
- 4.4 Os dymunwch, gallwch roi gwybodaeth inni yn ddienw. Ond mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddai modd inni gysylltu â chi i drafod eich pryderon neu i ofyn ichi am ragor o wybodaeth, ac ni fyddai modd inni roi adborth ichi ynglŷn ag unrhyw gamau y gallem eu cymryd.
- 4.5 Oni bai y byddwn o'r farn y gellir cael tystiolaeth neu wybodaeth o ffynonellau eraill, efallai y byddwn yn penderfynu peidio â gweithredu ar sail pryderon a godir yn ddienw.

5. Gweithredu ar ôl derbyn cwyn

- 5.1 Ar ôl ichi roi eich manylion cyswllt inni, byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn eich pryder, naill ai'n ysgrifenedig neu mewn e-bost, o fewn pum diwrnod. Rhaid i'r wybodaeth a gyflwynwch gynnwys rhai manylion ffeithiol, felly efallai hefyd y byddwn yn gofyn ichi am ragor o wybodaeth yn ystod y cam hwn.
- 5.2 Pan fydd gennym ddigon o wybodaeth, byddwn yn asesu eich pryder.
- 5.3 Os byddwn o'r farn y dylid ymdrin â'r mater o dan ein gweithdrefnau cymhwyster i ymarfer, byddwn yn rhoi gwybod ichi, a byddwn yn anfon rhagor o wybodaeth atoch ynglŷn â'r gweithdrefnau hynny. Sylwer: o dan ein trefniadau cymhwyster i ymarfer, ni fydd modd inni ddelio â phryderon yn ddienw.
- 5.4 Os penderfynwn fod eich pryderon yn codi materion na all y GOsC ddelio â nhw, efallai y byddwn yn cyfeirio'r mater at gorff arall. Byddwn yn rhoi gwybod ichi am hyn. Fel arall, efallai y byddwn yn rhoi manylion y corff priodol i chi, er mwyn i chi allu cysylltu ag ef.
- 5.5 Os byddwn o'r farn y dylid ymchwilio i'ch pryderon o dan ein polisi chwythu'r chwiban, byddwn yn cadarnhau hyn ac yn rhoi rhyw syniad ichi am ba hyd y bydd yr ymchwiliad yn para.
- 5.6 Pa bryd bynnag y bo modd, byddwn yn ceisio rhoi gwybod ichi beth fydd canlyniad ein hymchwiliad, ynghyd â pha gamau a gymerwyd gennym a pha argymhellion a gyflwynwyd i unrhyw drydydd parti.
- 5.7 Mae'r mathau o gamau y gallwn eu cymryd mewn perthynas â'ch pryder yn cynnwys:

- a. ychwanegu eich pryderon at yr wybodaeth a gedwir am ddarparwyr addysg y mae'n ofynnol inni eu cymeradwyo yn ôl y gyfraith, gan ddefnyddio eich gwybodaeth wrth benderfynu a ddylid adnewyddu ein cymeradwyaeth ar eu cyfer, ai peidio;
- b. codi eich pryderon yn uniongyrchol gyda'r sefydliad neu'r unigolyn, os ystyriwn fod hynny'n briodol;
- c. ymweld â sefydliadau a gaiff eu cymeradwyo gennym o dan ein deddfwriaeth, gan ofyn iddynt ddarparu gwybodaeth a dogfennau;
- d. pennu gwersi pwysig sy'n deillio o'ch pryderon a bwydo'r rhain yn ôl i'r sefydliadau a'r unigolion a gaiff eu rheoleiddio gennym, neu ddiwygio ein polisiau a'n gweithdrefnau ein hunain;
- e. ceisio rhagor o wybodaeth gan ffynonellau eraill ynglŷn â'r pryderon a godwyd gennych;
- f. os yw eich pryderon yn ymwneud ag osteopath unigol, delio â'r mater yn unol â'n gweithdrefnau cymhwyster i ymarfer;
- g. cyfeirio'r mater at reoleiddiwr neu gorff swyddogol arall, neu at yr heddlu.

6. Ffynonellau cyngor pellach

- 6.1 Cyn ichi benderfynu a ydych am godi cwyn gyda'r GOsC, ai peidio, efallai yr hoffech gael cyngor annibynnol yn gyntaf, neu efallai yr hoffech gysylltu â'ch undeb llafur neu eich corff proffesiynol.
- 6.2 Os ydych yn gweithio i'r GIG, gallwch gael cyngor cyfrinachol, annibynnol, rhad ac am ddim trwy gysylltu â Llinell Gymorth Chwythwyr Chwiban y GIG a Gofal Cymdeithasol ar 08000 724725.
- 6.3 Hefyd, gallwch gael galwad ffôn gyfrinachol gyda [Protect, yr elusen annibynnol ar gyfer chwythwyr chwiban](#), ar 020 3117 25 20.

7. Cymorth i chwythwyr chwiban

- 7.1 Mae'r GOsC yn cynnig Gwasanaeth Cymorth Annibynnol rhad ac am ddim i bobl sydd wedi codi pryderon chwythu'r chwiban. Mae'r gwasanaeth hwn yn annibynnol ar y GOsC a chaiff ei redeg gan wirfoddolwyr yr elusen Cymorth i Ddiodefnywyr.
- 7.2 Gall chwythwyr chwiban ddefnyddio'r cymorth cyfrinachol hwn ar unrhyw adeg trwy ffonio 0300 303 1964 a'u hatgyfeirio eu hunain at y gwasanaeth, neu trwy siarad â'r GOsC a gofyn am gael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth. Mae'r llinell gymorth ar agor 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae gweithwyr achosion ar gael i gynnig cymorth parhaus ddydd Lun i ddydd Gwener, 8am-6pm (ac eithrio gwyliau banc), ac mae gweithwyr cymorth ar gael ar bob adeg arall i gynnig cymorth yn syth.

8. Adolygu

- 8.1 Bydd y GOsC yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd ar sail unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu unrhyw ddiwygiadau a gyflwynir i godau ymarfer perthnasol.